O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 333 (Cy.51)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Edlogan Way, Cwmbrân, Torfaen) (Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011

Gwnaed *07 Chwefror 2011*

Yn dod i rym *14 Chwefror 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Casnewydd i'r Amwythig (yr A4042) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno;

Gan hynny, mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 **(1)** a phob pŵer galluogi arall, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn hwn **(2)**:

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 14 Chwefror 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Edlogan Way, Cwmbrân, Torfaen) (Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 22:00 o'r gloch ar 14 Chwefror 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" (*"the length of the trunk road*") yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A4042 a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.